**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 18fed Mai 2006 |
| ADRODDIAD GAN: | **CHRIS ENNESS, DIRPRWY BRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | I roi gwybod i'r Aelodau am y penderfyniadau a wnaed gan y Prif Swyddog Tân yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd ynghylch ymestyn tâl salwch. |

1. **YMESTYN TÂL SALWCH**

1.1 Ers y cyfarfod o'r Panel Gweithredol ar 13eg Mawrth 2006, caniatawyd saith estyniad i dâl salwch.

1.2 Mewn un achos roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn gyda thri mis pellach o dâl llawn wedi dod i ben, a chaniatawyd 50% o dâl llawn am gyfnod o chwe mis.

1.3 Mewn un achos roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn gydag 14 mis pellach ar 50% o dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad o 50% o dâl llawn tra'n ymchwilio i bosibilrwydd ymddeoliad ar sail afiechyd.

1.4 Mewn un achos roedd yr hawl i chwe mis o dâl llawn wedi dod i ben a chaniatawyd estyniad o dâl gan fod yr unigolyn dan sylw i fod i adael y Gwasanaeth cyn bo hir.

1.5 Yn y cyfnod dan sylw, mae dau o'r staff yn rhai lifrai rhan amser, ac un yn weithiwr lifrai llawn amser gyda'r Gwasanaeth.

2. **ARGYMHELLIAD**

2.1 Nodi'r adroddiad.